OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 Rhif 542 (Cy. 120)

# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

## Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) (Diwygio) 2017

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *5 Ebrill 2017* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *11 Ebrill 2017* |
| *Yn dod i rym - -* | *5 Mai 2017* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 62, 78, 195 a 333 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(**1**), sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**2**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

### Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) (Diwygio) 2017 a daw i rym ar 5 Mai 2017.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "Gorchymyn 2012" ("*the 2012 Order*") yw Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012(**3**).

### Diwygiadau i Orchymyn 2012

**2.** Mae Gorchymyn 2012 wedi ei ddiwygio yn unol â'r darpariaethau a ganlyn.

### Dehongli

**3.** Yn erthygl 2(1) yn y lle priodol mewnosoder—

"ystyr "datganiad achos llawn" ("*full statement of case*") yw, ac mae'n cynnwys—

(a) datganiad ysgrifenedig sy'n cynnwys manylion llawn yr achos—

(**1**) 1990 p. 8. Diwygiwyd adrannau 78 a 195 gan adran 47(1) a (2) yn y drefn honno o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 (dccc 4) ("Deddf 2015"). Diwygiwyd adran 333 gan adran 55 o Ddeddf 2015 a pharagraff 3 o Atodlen 7 iddi.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru gan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraffau 30 a 32 o Atodlen 11 iddi.

(**3**) O.S. 2012/801 (Cy. 110).

(i) y mae'r ceisydd yn bwriadu ei gyflwyno mewn perthynas â'r cais sydd wedi ei atgyfeirio at Weinidogion Cymru yn unol â chyfarwyddyd o dan adran 77 o Ddeddf 1990(**4**); neu

(ii) y mae'r apelydd yn bwriadu ei gyflwyno mewn perthynas â'r apêl o dan adran 78 o Ddeddf 1990; a

(b) copïau o unrhyw ddogfennau ategol y mae'r ceisydd neu'r apelydd yn bwriadu cyfeirio atynt neu eu cyflwyno fel tystiolaeth;".

**Atgyfeirio ceisiadau at Weinidogion Cymru**

**4.** Yn lle erthygl 13 (hysbysiad o atgyfeirio ceisiadau at Weinidogion Cymru) a'i bennawd rhodder—

"**Atgyfeirio ceisiadau at Weinidogion Cymru**

**13.**—(1) Wrth atgyfeirio unrhyw gais at Weinidogion Cymru yn unol â chyfarwyddyd o dan adran 77 o Ddeddf 1990 (atgyfeirio ceisiadau at yr Ysgrifennydd Gwladol), rhaid i awdurdod cynllunio lleol cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol—

(a) cyflwyno i'r ceisydd hysbysiad o atgyfeirio; a

(b) anfon copi o ffeil y cais at Weinidogion Cymru.

(2) Rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol anfon copi o'r hysbysiad o atgyfeirio at Weinidogion Cymru ar yr un pryd ag y mae'r hysbysiad yn cael ei anfon at y ceisydd.

(3) Caiff ceisydd y mae hysbysiad o atgyfeirio yn cael ei gyflwyno iddo ddewis cyflwyno datganiad achos llawn i Weinidogion Cymru.

(4) Rhaid i geisydd sy'n dewis gwneud hynny anfon—

(a) y datganiad achos llawn fel bod Gweinidogion Cymru yn ei gael o fewn 4 wythnos sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'r hysbysiad o atgyfeirio yn cael ei gyflwyno;

(b) copi o'r datganiad achos llawn i'r awdurdod cynllunio lleol ar yr un pryd ag y caiff ei anfon at Weinidogion Cymru.

(5) Yn yr erthygl hon—

(a) ystyr "ffeil y cais" ("*application file*") yw'r cais ynghyd â dogfennau atodol a'r holl ohebiaeth â'r awdurdod cynllunio lleol sy'n ymwneud â'r cais; a

(b) ystyr "hysbysiad o atgyfeirio" ("*notice of reference*") yw hysbysiad—

(i) sy'n rhoi gwybod i'r ceisydd bod y cais wedi ei atgyfeirio at Weinidogion Cymru;

(ii) sy'n nodi'r rhesymau a roddir gan Weinidogion Cymru dros ddyroddi'r cyfarwyddyd; a

(iii) sy'n hysbysu'r ceisydd—

(aa) y caiff y ceisydd gyflwyno datganiad achos llawn i Weinidogion Cymru, os yw'n dewis gwneud hynny;

(bb) os yw'r ceisydd yn dewis cyflwyno datganiad achos llawn, rhaid i Weinidogion Cymru ei gael o fewn 4 wythnos sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'r hysbysiad o atgyfeirio yn cael ei gyflwyno; ac

(**4**) Mewnosodwyd adran 77(6A) o ran Cymru gan O.S. 2014/2773 (Cy. 280).

(cc) bod rhaid anfon copi o'r datganiad achos llawn (os yw'n gymwys) i'r awdurdod cynllunio lleol ar yr un pryd ag y caiff ei anfon at Weinidogion Cymru."

**Apelau o dan adran 78 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990**

**5.**—(1) Yn erthygl 26(1)(**5**)—

(a) yn is-baragraff (a) hepgorer ", o fewn y terfyn amser a bennir ym mharagraff (2),";

(b) yn is-baragraff (a) ar ôl "gan Weinidogion Cymru" mewnosoder "a datganiad achos llawn";

(c) ar ddiwedd is-baragraff (b) mewnosoder "a chopi o'r datganiad achos llawn".

(2) Yn erthygl 26(2), yn lle "Y terfyn amser a grybwyllir ym mharagraff (1) yw" rhodder "At ddibenion adran 78(3) o Ddeddf 1990 y cyfnod amser a ragnodir y mae'n rhaid cyflwyno apêl ynddo o dan adran 78(1) o'r Ddeddf honno yw".

(3) Yn erthygl 26, yn lle paragraff (4) rhodder—

"(4) Caiff Gweinidogion Cymru wrthod derbyn hysbysiad o apêl—

(a) o dan adran 78(1) o Ddeddf 1990 os nad yw'r dogfennau sy'n ofynnol o dan baragraffau (1) a (3) wedi eu cyflwyno i Weinidogion Cymru o fewn y cyfnod amser a ragnodir ym mharagraff (2);

(b) o dan adran 78(2) o Ddeddf 1990 os nad yw'r dogfennau sy'n ofynnol o dan baragraffau (1) a (3) wedi eu cyflwyno i Weinidogion Cymru."

**Apelau o dan adran 195 o Ddeddf 1990**

**6.** Ar ôl erthygl 26A mewnosoder—

"**Apelau o dan adran 195 o Ddeddf 1990**

**26B.**—(1) Rhaid i geisydd sy'n dymuno apelio i Weinidogion Cymru o dan adran 195 o Ddeddf 1990 (apelau yn erbyn gwrthod cais am dystysgrif cyfreithlondeb defnydd neu ddatblygiad presennol neu arfaethedig neu fethiant i wneud penderfyniad ar gais o'r fath) roi hysbysiad o apêl i Weinidogion Cymru drwy—

(a) cyflwyno i Weinidogion Cymru ffurflen a gafwyd gan Weinidogion Cymru, ynghyd â—

(i) y cyfryw rai o'r dogfennau a bennir ym mharagraff (2) sy'n berthnasol i'r apêl; a

(ii) datganiad achos llawn;

(b) cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol gopi o'r ffurflen a grybwyllir yn is-baragraff (a), cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, ynghyd â chopi o unrhyw ddogfennau perthnasol a grybwyllir ym mharagraff (2)(ch) a chopi o'r datganiad achos llawn.

(2) Y dogfennau a grybwyllir ym mharagraff (1)(a)(i) yw—

(a) y cais a wnaed i'r awdurdod cynllunio lleol a arweiniodd at yr apêl;

(b) yr holl blaniau, lluniadau a dogfennau a anfonwyd at yr awdurdod mewn cysylltiad â'r cais;

(c) yr holl ohebiaeth gyda'r awdurdod mewn perthynas â'r cais;

(**5**) Diwygiwyd erthygl 26 gan O.S. 2015/1330 (Cy. 123) ac O.S. 2016/59 (Cy. 29).

(ch) unrhyw blaniau, dogfennau neu luniadau eraill mewn perthynas â'r cais nad oedd wedi eu hanfon at yr awdurdod;

(d) yr hysbysiad o'r penderfyniad neu'r dyfarniad, os oes un.

(3) At ddibenion adran 195(1B) o Ddeddf 1990, y cyfnod amser a ragnodir y mae'n rhaid i apêl a wneir o dan adran 195(1)(a) o'r Ddeddf honno gael ei gwneud ynddo yw 6 mis o ddyddiad yr hysbysiad o benderfyniad neu ddyfarniad sy'n arwain at yr apêl.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru wrthod derbyn hysbysiad o apêl—

(a) o dan adran 195(1)(a) o Ddeddf 1990 os na chyflwynir y dogfennau sy'n ofynnol o dan baragraffau (1) a (2) i Weinidogion Cymru o fewn y cyfnod amser a ragnodir ym mharagraff (3);

(b) o dan adran 195(1)(b) o Ddeddf 1990 os na chyflwynir y dogfennau sy'n ofynnol o dan baragraffau (1) a (2) i Weinidogion Cymru.

(5) Caiff Gweinidogion Cymru ddarparu, neu drefnu ar gyfer darparu, gwefan i'w defnyddio at ba bynnag ddibenion a ystyrir yn briodol gan Weinidogion Cymru—

(a) sy'n ymwneud ag apelau o dan adran 195 o Ddeddf 1990 a'r erthygl hon, a

(b) y gellir eu cyflawni yn electronig.

(6) Pan fo person yn rhoi hysbysiad o apêl i Weinidogion Cymru gan ddefnyddio cyfathrebiadau electronig, mae darpariaethau erthygl 32 yn gymwys."

**Amrywio ceisiadau ar ôl hysbysiad o apêl**

**7.** Ar ôl erthygl 26B mewnosoder—

"**Amrywio ceisiadau ar ôl hysbysiad o apêl**

**26C.**—(1) At ddibenion adrannau 78(4BA) a 195(1DA) o Ddeddf 1990 yr amgylchiad a ragnodir yw bod y cais y mae'r apêl yn ymwneud ag ef yn cynnwys gwall cywiradwy.

(2) Mae cais sydd wedi ei amrywio o dan yr amgylchiad a ragnodir ym mharagraff (1) yn destun unrhyw ymgynghori pellach y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod yn briodol.

(3) Yn yr erthygl hon ystyr "gwall cywiradwy" ("*correctable error*") yw gwall—

(a) sydd wedi ei gywiro er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth a gynhwysir yn y cais a'r dogfennau atodol yn gyson; a

(b) nad yw'n addasu hanfod y cais."

**Darpariaethau trosiannol ac arbed**

**8.**—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys pan fo unrhyw un neu ragor o'r canlynol yn digwydd mewn perthynas â chais a wnaed cyn i'r Gorchymyn hwn ddod i rym—

(a) bod y cais yn cael ei atgyfeirio at Weinidogion Cymru yn unol â chyfarwyddyd o dan adran 77 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, neu

(b) bod apêl yn cael ei wneud.

(2) Mae Gorchymyn 2012 yn gymwys i'r cais hwnnw neu'r apêl honno fel pe na bai'r diwygiadau a wneir gan erthyglau 2 i 7 wedi eu gwneud.

*Jane Hutt*
5 Ebrill 2017 — Un o Weinidogion Cymru

---

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 ("Gorchymyn 2012").

Mae'r prif newidiadau fel a ganlyn—

(1) diwygiadau i'r weithdrefn mewn perthynas â cheisiadau a atgyfeirir at Weinidogion Cymru yn unol â chyfarwyddyd o dan adran 77 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("Deddf 1990"), gan gynnwys darpariaeth i geisydd gyflwyno datganiad achos llawn o fewn cyfnod amser penodedig os yw'r ceisydd yn dewis gwneud hynny (erthygl 4 sy'n rhoi erthygl 13 newydd yn lle'r un bresennol yng Ngorchymyn 2012).

(2) diwygiadau i'r weithdrefn mewn perthynas ag apelau o dan adran 78 o Ddeddf 1990 i'w gwneud yn ofynnol—

(a) i ddatganiad achos llawn fynd gyda'r hysbysiad o apêl; a

(b) i'r apelydd anfon copi o'r datganiad achos llawn i'r awdurdod cynllunio lleol (erthygl 5 sy'n diwygio erthygl 26 o Orchymyn 2012).

(3) darpariaeth bod y weithdrefn apelio o dan adran 195 o Ddeddf 1990 (apelau yn erbyn gwrthod cais am dystysgrif cyfreithlondeb defnydd neu ddatblygiad presennol neu arfaethedig neu fethiant i wneud penderfyniad ar gais o'r fath)—

(a) yn ei gwneud yn ofynnol i ddatganiad achos llawn fynd gyda'r hysbysiad o apêl;

(b) yn ei gwneud yn ofynnol i'r apelydd anfon copi o'r datganiad achos llawn i'r awdurdod cynllunio lleol; ac

(c) yn darparu bod rhaid i geisydd sy'n dymuno apelio i Weinidogion Cymru yn erbyn gwrthod cais am dystysgrif cyfreithlondeb defnydd neu ddatblygiad presennol neu fethiant i wneud penderfyniad ar gais o'r fath wneud hynny o fewn chwe mis o ddyddiad yr hysbysiad o'r penderfyniad neu'r dyfarniad sy'n arwain at yr apêl (erthygl 6 sy'n mewnosod erthygl 26B yng Ngorchymyn 2012).

(4) darpariaeth o dan adran 78(4BA) a (4BB) ac adran 195(1DA) ac (1DB) o Ddeddf 1990 (a fewnosodwyd gan adran 47(1) a (2) o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015) i—

(a) rhagnodi amgylchiad o dan adrannau 78(4BA) a 195(1DA) pan ganiateir amrywio cais unwaith i'r hysbysiad o apêl gael ei gyflwyno; a

(b) darparu bod cais sy'n cael ei amrywio yn y fath fodd yn destun unrhyw ymgynghori pellach y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod yn briodol (erthygl 7 sy'n mewnosod erthygl 26C yng Ngorchymyn 2012).

Mae erthygl 8 yn cynnwys darpariaethau trosiannol ac arbed.

Lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copïau oddi wrth yr Is-adran Gynllunio, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru.